# RHAGAIR

Ni raid petruso defnyddio'r ansoddair unigryw i ddisgrifio'r gamp a gyflawnwyd gan Richard Bebb, Dr Sioned Williams a Llyfrau Saer wrth lunio'r llyfr goludog hwn. Yn sicr iawn ni fu'r grefft a'i lluniodd heb ei dawn ac y mae *Y Gadair Farddol* yn enghraifft o grefftwra trawiadol o gain yn harddu llyfr nodedig sy'n dwysáu'n sylw yn fwy nag erioed ar sumbol arbenicaf perthynas y bardd Cymraeg â'i genedl dros lawer canrif.

Mae gwybodaeth sicr Sioned Williams o ymbriodi ag ysgolheictod brwd Richard Bebb wedi gwarantu seiliau solet i'r llyfr, ac y mae'r sylwebaeth arbenigol sy'n hebrwng cyfres helaeth o ddarluniau yn llawn goleuni i ddarllenwyr. Ac am ansawdd y darluniau, y mae'n ddi-ffael o ysblennydd. Haedda Richard Bebb glod dibrin am agor oriel sy'n arddangos 'mystique' ac atyniad eiconig y gadair farddol, waeth beth am statws y gystadleuaeth y mae'n bod i'w hyrwyddo.

Wedi'i dywys gan chwilfrydedd newydd-anedig, y mae Richard Bebb wedi darganfod drosto'i hun rym 'y gadair' fel un o wir ddynodyddion hynodrwydd y diwylliant Cymraeg. Y mae wedi sylweddoli na ellir gorbrisio pwysigrwydd deall y cyd-destun sy'n rhoi i'r sumbol oesol hwn ei bŵer a'i afael ar ddychymyg y cyhoedd. Y mae'r gadair farddol yn fwy o lawer na ffaith hanesyddol; y mae'n gysyniad bywiol, yn ddelfryd ac yn her barhaus. Yng ngafael ei hud y mae llunwyr y llyfr hwn wedi creu crefftwaith y dylai'i geinder adnewyddu ein balchder yn y traddodiad bythwyrdd a wnaeth 'ennill cadair' amser maith yn ôl yn bennaf nôd dyheadau bardd o Gymro – a Chymraes bellach.

Haedda *Y Gadair Farddol* gywydd mawl clasurol yn deyrnged i barhau. Yn y tymor byr y ffordd orau i ni ddangos ein gwerthfawrogiad yw cydnabod i ni gael trysor o lyfr a'i brynu, yn ein cannoedd, yn ddi-oed.

*Hywel Teifi Edwards*